



## **Troelli platiau, meistr cylch y syrcas ar ystudfachau, sioe Pwnsh a Jwdi, a band drymio oll yn dod at ei gilydd i daro'r nodyn iawn yn y Rhyl.**

Bydd gan y stryd fawr thema cyrcas ar gyfer y digwyddiad am ddim diweddaraf gan Gyngor Tref y Rhyl.

Mae digwyddiad undydd Sadwrn y Syrcas yn rhan o'r cynnig cyffrous ar gyfer yr haf sy'n cynnwys dwy ŵyl gerdd a'r sioe awyr boblogaidd.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Mae'r cyngor tref eisoes yn cefnogi'r digwyddiadau mwy megis y sioe awyr a'r ŵyl gerddoriaeth yr enaid sy'n denu ymwelwyr o bob cwr.

"Ar ben hynny, rydym yn trefnu gweithgareddau cymunedol llai, yn bennaf ar gyfer y bobl sy'n byw yn y Rhyl. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig diwrnod o ddigwyddiadau a phrofiadau am ddim, rhai ohonynt yn newydd i'r dref. Mae Sadwrn y Syrcas yn un o'r rhain," meddai.

Dywedodd y Cynghorydd Chard bod nifer o weithgareddau wedi eu cynllunio y gallai ymwelwyr roi cynnig arnynt.

Ychwanegodd: "Mae gan Sadwrn y Syrcas rywbeth i bawb. Mae gennym sioe draddodiadol Pwnsh a Jwdi, cerddoriaeth gan fand drymio gwych Bloco Sŵn, drychau gwirion, hud a lledrith, chwarae cylchyn a peintio wynebau. Mae gennym hyd yn oed byped parot anferth ac artist sy'n gwneud lluniau o ymwelwyr.

**Mwy/...**



-2-

“Ond rydym eisiau i bobl roi cynnig ar y gweithgareddau eu hunain, a dyna pam mae gennym gêm kerplunk anferth a gweithdai sgiliau syrcas. Y bwriad yw dod ag ychydig o hwyl i’r dref a gwneud i bobl wenu.”

Bydd Sadwrn y Syrcas, a gynhelir ar ddydd Sadwrn 13 Gorffennaf rhwng 11am-4pm, yn cael ei dilyn gan ddigwyddiadau yn arena’r dref, gan gynnwys cerddoriaeth Enaid yr Haf ar Awst 18 gyda Jimmy James & The Vagabonds, The Edwin Starr Band, ‘The Team’ gydag Angelo Starr, Precious Wilson, Midnight Soul Supremes a throellwyr disgiau gwadd. Trefnir digwyddiad Cerddoriaeth Enaid yr Haf gan Gyngor Sir Ddinbych ac fe’i cefnogir gan Gyngor Trefn y Rhyl.

## Diwedd

